**Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu**

**a) Cyffredinol – pob un o'r pedwar amcan trwyddedu (b, c, d, e)**

Mae'r safle'n cynnwys bar/lolfa gyda bwyty/ardal achlysuron ynghlwm, ynghyd ag ardal patio awyr agored yn y ffrynt. Ceir mynediad trwy'r prif ddrws ffrynt, gydag allanfeydd tân fel y'u disgrifir yn y cynllun. Mae yna arcêd ddiddanu/ystafell chwaraeon ar gyfer plant lle na chaniateir alcohol, ynghyd ag ardal paratoi Prydau Parod. Llwyr waherddir unrhyw ymddygiad meddw ac afreolus a chamddefnydd o gyffuriau, a rhoir gwybod i'r heddlu am unrhyw rai sy'n tramgwyddo, os yn briodol, gan ofyn iddyn nhw adael y Pentref ar unwaith.

**b) Atal troseddau ac anhrefn**

Atgoffir cwsmeriaid sy'n gadael y safle fin nos i adael yn dawel ac yn drefnus. Croesewir plant ar y safle, ond ni chaniateir iddyn nhw ddod at y bar ar unrhyw adeg. Mae staff y bar wedi'u hyfforddi'n briodol i ofyn am ddogfen adnabod, a gofynnir am brawf oedran ysgrifenedig addas gan unrhyw un sy'n edrych dan 18 oed sy'n ceisio prynu alcohol. Cesglir y gwydrau a'r poteli'n rheolaidd tra bod y cyhoedd ar y safle. Ni chaniateir i gwsmeriaid adael y safle gydag unrhyw wydr neu boteli sy'n berchen i'r safle, oni bai eu bod wedi'u prynu i'w hyfed oddi ar y safle, yn unol â thrwydded y safle.

**c) Diogelwch cyhoeddus**

Mae dŵr oer ar gael am ddim ger y bar. Cedwir yr allanfeydd yn glir bob amser. Mae goleuadau digonol ar y safle, ond os bydd y cyflenwad trydan yn methu neu mewn argyfwng, bydd y goleuadau argyfwng a weithredir gyda batri wrth gefn yn dod ymlaen. Mae fentiau awyru yn ffenestri'r safle y gellir eu hagor, yn ogystal â dau echdynnwr i ddarparu aer oer ac awyru'r safle ar gyfer cwsmeriaid.

**d) Atal niwsans cyhoeddus**

Bydd y rheolwyr yn rheoli lefelau unrhyw gerddoriaeth wedi'i recordio a chwaraeir ar y chwaraewr CD bob amser. Bydd cyflenwadau bwyd ac alcohol yn cyrraedd yn ystod y dydd bob amser, a hynny yn y bore fel arfer, ond yn ystod y gwyliau e.e. gwyliau'r haf, gallant gyrraedd yn y prynhawn weithiau. Cedwir biniau sbwriel y safle y tu allan, i ffwrdd o'r cyhoedd, a chesglir y sbwriel yn wythnosol gan y Cyngor a dwywaith yr wythnos gan BIFFA. Mae'r gegin wedi'i hawyru â ffaniau echdynnu, fel na fydd unrhyw arogleuon atgas yn achosi problemau i'r trigolion sy'n byw gerllaw'r safle.

**e) Amddiffyn plant rhag niwed**

Gofynnir am brawf oedran ysgrifenedig addas gan unrhyw un sy'n edrych dan 19 oed sy'n ceisio prynu alcohol. Ni chaniateir plant wrth y bar ar unrhyw adeg. Hyfforddir yr holl staff i ofyn am ddogfen adnabod addas. Ni chaniateir plant ar y safle ar ôl 10.00pm.

